

# Cynorthwywyr addysgu: Cymorth ar waith

This e-book is taken from an Open University module, which was originally published as an open educational resource on the OpenLearn website [<http://www.open.edu/openlearn/>]. This content may include video, images and interactive content that may not be optimised for your device. To view the original version of this content please go to OpenLearn – [<http://www.open.edu/openlearn/>].

If reading this text has inspired you to learn more, you may be interested in joining the millions of people who discover our free learning resources and qualifications by visiting The Open University [<http://www.open.ac.uk/choose/ou/open-content>].

**Don't miss out:**

**1. Join over 200,000 students**, currently studying with The Open University [<http://www.open.ac.uk/choose/ou/open-content>]

**2. Enjoyed this?** Find out more about this topic or browse all our free course materials on OpenLearn [<http://www.open.edu/openlearn/>]

**3. Outside the UK?** We have students in over a hundred countries studying online qualifications [<http://www.openuniversity.edu/>] including an MBA at our triple accredited Business School.

Copyright © 2013 The Open University

Except for third party materials and/or otherwise stated (see terms and conditions [<http://www.open.ac.uk/conditions>]) the content in OpenLearn is released for use under the terms of the Creative Commons Attribution-NonCommercial-Sharealike 2.0 licence [<http://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/2.0/uk/>].

In short this allows you to use the content throughout the world without payment for non-commercial purposes in accordance with the Creative Commons non commercial sharealike licence. Please read this licence in full along with OpenLearn terms and conditions before making use of the content.

When using the content you must attribute us (The Open University) (the OU) and any identified author in accordance with the terms of the Creative Commons Licence.

The Acknowledgements section is used to list, amongst other things, third party (Proprietary), licensed content which is not subject to Creative Commons licensing. Proprietary content must be used (retained) intact and in context to the content at all times. The Acknowledgements section is also used to bring to your attention any other Special Restrictions which may apply to the content. For example there may be times when the Creative Commons Non-Commercial Sharealike licence does not apply to any of the content even if owned by us (the OU). In these stances, unless stated otherwise, the content may be used for personal and non-commercial use. We have also identified as Proprietary other material included in the content which is not subject to Creative Commons Licence. These are: OU logos, trading names and may extend to certain photographic and video images and sound recordings and any other material as may be brought to your attention.

Unauthorised use of any of the content may constitute a breach of the terms and conditions and/or intellectual property laws.

We reserve the right to alter, amend or bring to an end any terms and conditions provided here without notice.

All rights falling outside the terms of the Creative Commons licence are retained or controlled by The Open University.

Head of Intellectual Property, The Open University

## CYM-E111\_1

# Cynorthwyr addysgu: Cymorth ar waith

## Contents

---

Cyflwyniad	4
Deilliannau dysgu	5
1 Datblygiad cynorthwyr	6
1.1 Gweithwyr cynorthwyol mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill	7
1.2 Cynorthwyo athrawon	7
1.3 Sgiliau proffesiynol a phersonol	9
1.4 Teitlau a dyletswyddau	10
1.5 Ffyrdd o weithio a chyfrannu	11
1.6 Twf y gweithlu cynorthwyr addysgu	13
1.7 Datblygu cynorthwyr addysgu yng Nghymru	13
1.8 Cynorthwyr addysgu yn Ewrop	14
1.9 Cynorthwyr addysgu a'r Brifysgol Agored	15
2 Cyfraniad a rolau	17
2.1 Beth yw gwerth cynorthwyr addysgu?	17
2.2 Barn plant a rhieni	18
2.3 Cyfraniadau unigryw	20
2.4 Rôl ddatblygol yr athro	21
3 Cymorth ar waith	23
3.1 Canolbwyntio ar ymarfer	23
3.2 Cynorthwyo, cefnogi ac addysgu	25
4 Edrych i'r dyfodol	26
5 Casgliad	27
References	27
Acknowledgements	29

## Cyflwyniad

Mae cynorthwyr addysgu, a staff cymorth dysgu tebyg, yn rhan sylweddol o weithlu sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus. Cânt eu galw weithiau yn 'weithwyr parbroffesiynol', sef gweithwyr sy'n ategu ac yn cefnogi gwaith gweithwyr proffesiynol cymwys. Byddem ni'n dadlau, fodd bynnag, bod cynorthwyo addysgu yn broffesiwn ynddo'i hun sy'n aml yn gorgyffwrdd â rôl athrawon ac yn debyg iddi. Ers iddynt gael eu cyflwyno gyntaf yn y 1960au fel 'helpwyr' a 'staff ategol', mae cynorthwyr addysgu wedi dod yn rhan hanfodol o addysg plant mewn ysgolion cynradd ledled y DU a thu hwnt. Pa bynnag rôl y byddwch yn ei chwarae mewn ysgolion i gynorthwyo plant i ddysgu, rydych yn rhan o'r datblygiad hanesyddol hwn.

Er hwylustod, rydym wedi defnyddio'r term cyffredinol 'cynorthwydd addysgu' drwy gydol yr uned hon. Rydym yn ffafrio'r term hwn dros y talfyriad 'CA', sydd yn lleihau statws y rôl yn ein barn ni. 'Cynorthwydd addysgu' yw term dewisol y llywodraeth ar hyn o bryd, ond mae llawer o dermau eraill yn cael eu defnyddio ledled y DU. Rydym felly yn defnyddio 'cynorthwydd addysgu' i gyfeirio at y mathau amrywiol o wirfoddolwyr ac oedolion cyflogedig (heblaw am athrawon cymwys) sy'n rhoi cymorth dysgu i blant oedran cynradd yn y DU.

Un o brif nodweddion y gweithlu cynorthwyr addysgu yw ei fod yn amrywiol iawn - nid yn unig o ran teitlau swyddi a chyfrifoldebau cysylltiedig, ond hefyd o ran profiad blaenorol, cymwysterau ffurfiol, cyfleoedd i gael hyfforddiant mewn swydd, dulliau gweithio a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn gynorthwydd. Drwy recriwtio cynorthwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr, daw ysgolion i gysylltiad amrywiaeth o oedolion, yn ychwanegol at athrawon cymwys, sydd â llawer i'w gynnig i blant. Mae eu gwaith yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn yr ysgol. Nod yr uned hon yw adlewyrchu'r amrywiaeth hwnnw a'ch annog i feddwl am eich rhan yn y rolau amrywiol y gall cynorthwyr addysgu eu chwarae.

Un o nodweddion diddorol y gweithlu cynorthwyr addysgu yw ei fod yn cynnwys llawer mwy o fenywod na dynion. Pam mae'r gwaith hwn yn atyniadol i fenywod, yn enwedig llawer ohonynt sy'n famau, a pham mae cyn lleied o ddynion? Dyma un o'r themâu y byddwch yn eu hystyried yn yr uned hon.

Fel athrawon a'u gwaith, mae angen llawer o sgiliau ar gynorthwyr addysgu i weithio gyda phlant ac, yn aml, mae mwy nag un ffordd o fod yn effeithiol. Yn ddiweddarach yn yr uned hon, byddwn yn edrych ar sut mae un cynorthwydd addysgu, Caroline Higham, yn gweithio ac yn ystyried sut mae'n cydweithio ag athro dosbarth ac yn defnyddio ei hymarfer unigryw mewn gwrs mathemateg.

Mae cynorthwyr addysgu yn adnodd hanfodol a sylweddol iawn mewn ystafelloedd dosbarth cynradd, i'r graddau ei bod yn anodd dychmygu sut y gallai ysgolion ymdopi hebddynt.

**!Warning! Tahoma not supported** Mae'r uned astudio hon yn ddyfyniad wedi'i addasu sy'n berthnasol i gwrs y Brifysgol Agored **E111 Supporting learning in primary schools**.

Mae'r uned hon hefyd ar gael yn Saesneg ar [Saesneg ar OpenLearn](#).

## Deilliannau dysgu

---

Erbyn diwedd yr uned hon, dylech allu gwneud y canlynol:

- trafod sut y daeth gweithlu cynorthwyr addysgu'r DU i fodolaeth
- datblygu eich dealltwriaeth bod cynorthwyr addysgu yn rhan o weithlu ehangach o gynorthwyr yng ngwasanaethau cyhoeddus iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol
- deall rolau amrywiol a chyfraniadau unigryw cynorthwyr addysgu ledled y DU
- nodi rhai o'r sgiliau y mae cynorthwyr addysgu yn eu defnyddio i roi cymorth effeithiol a chyfrannu at waith tîm cynhyrchiol
- myfyrio ar werth gwaith cynorthwyr addysgu a'r sgiliau cymorth cysylltiedig, a meddwl am eich rôl yn y dyfodol.

# 1 Datblygiad cynorthwyr



Ffigur 1 "Adult helpers in my school" gan Emily (6 oed)

Er mwyn deall rôl cynorthwyr addysgu yn well, mae'n ddefnyddiol ystyried sut mae cynorthwyr yn fwy cyffredinol yn cefnogi gwahanol fathau o weithwyr proffesiynol. Fel cynorthwyr addysgu mewn ysgolion, mae rolau tebyg i'w gweld mewn meysydd gwaith eraill hefyd. Er enghraifft, yn y gwasanaeth iechyd, mae nyrsys yn cael cymorth gan gynorthwyr gofal iechyd ac mewn gwaith cymdeithasol, mae cynorthwyr personol yn rhoi cymorth i blant mewn gofal (plant sy'n derbyn gofal/'looked after children'). Mae Ian Kessler (2002) yn awgrymu'r rhesymau canlynol dros y datblygiadau hyn:

- In many areas of the UK, there have been growing problems recruiting and retaining qualified professionals such as nurses and teachers.
- There has been, from successive governments, a wish to 'modernise' public services to make them more responsive to their 'clients' and more cost efficient.

- There is a belief that established professional attitudes and practices should be challenged and improved, and that professionals should develop increased flexibility in their ways of working.

Yn ogystal â'r rhesymau cyffredinol hyn dros gyflogi cynorthwyr, mae dau brif ffactor i egluro pam y cânt eu cyflogi mewn ysgolion: yn gyntaf, mae'r ymdrech i ddarparu addysg gynhwysol wedi arwain at benodi cynorthwyr cymorth dysgu er mwyn rhoi cymorth personol i blant ag anghenion dysgu ac ymddygiadol cymhleth mewn ystafelloedd dosbarth prif ffrwd; yn ail, ers i awdurdodau lleol a'r llywodraeth ddatganoli cyllidebau i ysgolion, gall penaethiaid gyflogi mwy o gynorthwyr addysgu fel ffordd gost-effeithiol o roi cymorth i athrawon dosbarth sydd dan bwysau.

## 1.1 Gweithwyr cynorthwyol mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill

Ers i grŵp newydd o weithwyr cynorthwyol gael ei greu yn y gwasanaethau cyhoeddus, mae rolau a ffiniau galwedigaethol traddodiadol wedi'u hailstrwythuro ac mae gweithwyr proffesiynol yn dirprwyo rhai o'u dyletswyddau i eraill yn y gweithle. Bellach, mae cynorthwyr gofal iechyd, er enghraifft, yn helpu gyda gofal cleifion a dyletswyddau ar wardiau dan oruchwyliaeth nyrs neu fydwaig gofrestrdig. Mae eu dyletswyddau yn cynnwys:

- helpu i ddarparu safon uchel o ofal i gleifion, hyrwyddo cydraddoldeb ac urddas cleifion bob amser
- helpu cleifion gyda'u hylendid, symudedd, cysur corfforol a'u helpu i fwyta ac yfed, gan eu harsylwi a rhoi gwybod i'r nyrs gofrestrdig am unrhyw newidiadau penodol
- rhoi cymorth i berthnasau a ffrindiau cleifion
- mesur tymheredd, curiad calon, cyfradd anadlu a phwysedd gwaed claf a chofnodi arsylwadau clinigol arnynt
- mesur taldra a phwysau claf.

Cyn i'r rolau newydd hyn gael eu creu, nyrs gofrestrdig oedd yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Bellach, mae cynorthwyr gofal iechyd yn rhoi cymorth i nyrsys gan ryddhau'r staff nyrsio i wneud tasgau eraill sy'n galw am fwy o wybodaeth, cymwysterau a sgiliau. Wrth edrych ar y dyletswyddau sydd wedi'u rhestru uchod, efallai i chi nodi'r tebygrwydd cyffredinol rhwng y mathau o gyfrifoldebau sy'n cael eu rhoi i gynorthwydd gofal iechyd a chynorthwydd addysgu a'r mathau o sgiliau sydd eu hangen arnynt yn y gweithle. Yn wir, p'un a oes gennych gymwysterau cymorth cyntaf neu wybodaeth feddygol ai peidio, gallech fod yn meddwl 'Gydag arweiniad, gallwn i wneud rhai o'r dyletswyddau hynny.' Byddai hyn yn awgrymu bod gan gynorthwyr addysgu rai sgiliau trosglwyddadwy sy'n berthnasol i fathau eraill o waith parabroffesiynol.

## 1.2 Cynorthwyo athrawon

Yn Lloegr, mae camau i 'ailfodelu'r gweithlu' yn golygu bod mwy o bwyslais nag erioed yn cael ei roi ar rôl oedolion sy'n gweithio mewn ysgolion, yn enwedig cynorthwyr addysgu. Mae cynorthwyr addysgu lefel uwch (CALU) wedi ymgymryd â llawer o'r dyletswyddau gweinyddol a gyflawnwyd yn flaenorol gan athrawon a gallant oruchwyllo

dosbarthiadau plant pan fo athrawon yn absennol. Mae uwch gynorthwyrwyr addysgu wedi ymgymryd â rolau rheoli, gan oruchwylio gwaith cynorthwyrwyr addysgu a myfyrwyr ar brofiad gwaith.

Wrth feddwl am y gweithlu cynorthwyrwyr addysgu, mae'n bwysig hefyd cofio'r nifer fawr o gynorthwyrwyr addysgu gwirfoddol di-dâl. Yn ôl Smith (2011), roedd 126,300 o gynorthwyrwyr addysgu cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi mewn ysgolion meithrin a chynradd a gynhelir gan awdurdodau lleol yn Lloegr ym mis Ionawr 2010. Mae tua dwywaith yn fwy o athrawon ond mae'r ffordd y caiff cynorthwyrwyr eu cyflogi, ar gcontractau rhan amser yn aml, yn golygu 'fel cyrff' y gallai fod cynifer ohonynt ag sydd o athrawon mewn unrhyw ysgol. Fel arfer, nid yw awdurdodau lleol yn cadw cofnod o nifer y cynorthwyrwyr addysgu gwirfoddol. Gryn amser yn ôl, fodd bynnag, nododd arolwg cenedlaethol o ysgolion cynradd, arbennig ac annibynnol yn Lloegr (LGNTO, 2000) fod gan bob ysgol 8.5 o aelodau o staff gwirfoddol ar gyfartaledd (gan gynnwys rhai rhan amser). Felly, mae gwirfoddolwyr yn amlwg yn adnodd pwysig, er na chânt ddigon o gydnabyddiaeth, mewn llawer o ysgolion ac, yn wir, y gweithlu ehangach.

Cafodd statws cynorthwyrwyr addysgu lefel uwch (CALU) ei gyflwyno yng Nghymru yn 2004 a chaiff ei ddefnyddio'n rhanbarthol er mwyn helpu i ddiwygio gweithlu'r sector ysgolion cynradd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £240,000 y flwyddyn i ariannu hyd at 250 CALU. Yn sgil hyn, mae tua 2,000 o ymgeiswyr wedi llwyddo i ennill statws CALU.

Mae cyflwyno statws CALU yng Nghymru wedi helpu i sicrhau y caiff cynorthwyrwyr addysgu eu cydnabod fwyfwy fel staff medrus a phrofiadol a all gyflawni rolau mwy cyfrifol er mwyn helpu plant i ddysgu a bod yn rheolwyr llinell i staff cymorth eraill.

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n adolygu menter CALU. Nod yr adolygiad hwn oedd mireinio 'safonau proffesiynol' CALU fel eu bod yn rhoi llwybr gyrfa cliriach i ymarferwyr addysg yng Nghymru ac yn cysylltu â strategaethau rheoli perfformiad mwy ffurfiol, gan arwain at ragor o gyfleoedd o ran datblygiad proffesiynol parhaus. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cryfhau'r cysylltiad rhwng 'safonau proffesiynol' CALU â'i blaenoriaethau parhaus eraill, fel 'gwella llythrennedd a rhifedd a mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad ymhlith dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwael'.

Yng Nghymru, mae'r Cyfnod Sylfaen a gyflwynir yn y *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a), y *Fframwaith Sgiliau ar gyfer Dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008b) a'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2013c) wedi tynnu sylw at yr angen am ragor o hyfforddiant perthnasol i bob ymarferydd addysg, gan gynnwys cynorthwyrwyr addysgu. Yn ôl fframwaith y Cyfnod Sylfaen, rhaid cael cymhareb o un oedolyn i bob wyth plentyn, sy'n golygu bod hyd yn oed mwy o angen am ragor o gynorthwyrwyr addysgu hyfforddedig.

Mae Rhaglen Gymorth Genedlaethol Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i roi Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) ar waith (Llywodraeth Cymru, 2013b). Mae cydran llythrennedd y FfLIRh yn nodi'r lefelau y mae disgwyl i ddisgyblion eu cyflawni o ran darllen, ysgrifennu a llafaredd, tra bod y gydran rhifedd yn amlinellu disgwyliadau o ran datblygu sgiliau rhesymu rhifiadol a defnyddio sgiliau rhif, data a mesur. Mae disgyblion ym Mlynnyddoedd 2 hyd at Flwyddyn 9 yn sefyll profion darllen a rhifedd. Hefyd, mae FfLIRh yn cael ei ddefnyddio bellach fel adnodd i gynllunio'r cwricwlwm ar draws y sector cynradd yng Nghymru. Felly, un o effeithiau'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol a FfLIRh yw eu bod wedi cynyddu llwyth gwaith athrawon, sy'n



golygu bod mwy o gyfleoedd i gynorthwyr addysgu chwarae rolau newydd fel rhan o dimau staff ysgolion cynradd.

## 1.3 Sgiliau proffesiynol a phersonol

Mae Jean Ionta yn gweithio fel cynorthwydd cymorth disgyblion yn Ysgol Gynradd St Patrick's yn Glasgow. 'Cynorthwydd cymorth disgyblion' yw'r teitl a roddir i gynorthwyr addysgu yn yr Alban. Maent yn aml yn rhoi cymorth dysgu arbenigol a chymorth mwy cyffredinol i athrawon. Wrth ffilmio'r fideos ar gyfer yr uned hon yn yr ysgol, gwnaethom ganolbwyntio ar Jean wrth iddi weithio gyda'r plant a'r staff. Gwnaethom ddwyn yr agweddau hyn ar ei gwaith ynghyd er mwyn rhoi syniad i chi o'i diwrnod gwaith, gan dynnu sylw at y sgiliau proffesiynol a phersonol y mae'n eu defnyddio yn ei rôl.

### Gweithgaredd 1 Diwrnod ym mywyd

Dylech dreulio tua awr ar y dasg hon



Ffigur 2 Jean Ionta, Ysgol Gynradd St Patrick's, Glasgow

Wrth i chi wylio'r fideo, nodwch yn y blwch isod sut mae Jean yn gwneud ei gwaith, sut mae'n disgrifio ei gwaith a sut mae eraill yn portreadu ei chyfraniad. Yn benodol, nodwch sut mae'n pwysleisio datblygiad cymdeithasol a phersonol plant a'i rôl yn hyn o beth. Sut byddech yn disgrifio'r ffordd y mae'n ymwneud â'r plant a'r ffordd y mae'n eu helpu i ddysgu?

Cyflwynir y fideo hwn yn Saesneg, a cheir trawsgrifiad Cymraeg isod.

Video content is not available in this format.



*Provide your answer...*

#### Comment

Tua diwedd y fideo, dywed Jean ei bod yn teimlo 'the children are relaxed with me'. Mae'n ymddangos bod y sylw hwn yn cyfeirio at y cyfleoedd niferus i feithrin cydberthnasau a ddangosir yn y fideo hwn. Mae gwaith cymorth dysgu yn galluogi cynorthwyr i feithrin a datblygu cydberthnasau â phlant, a hynny efallai mewn ffordd sydd weithiau'n amhosibl i athrawon cymwys. Mae'n rhaid i athrawon gymryd cam yn ôl yn aml gan 'oruchwylio' ac arwain grwpiau mawr o blant. Yn eu gwaith agos gyda phlant, gall cynorthwyr addysgu a chynorthwyr cymorth disgyblion ddod ar draws cyfleoedd addysgu gwahanol a phwysig. Byddem yn dadlau bod gan gynorthwyr, efallai yn fwy nag athrawon, gyfleoedd i ddatblygu dulliau greddfod ('intuitive') (Houssart, 2011) a meithringar ('nurturing') (Hancock, 2012).

## 1.4 Teitlau a dyletswyddau

Yn y DU, defnyddir nifer o dermau ar hyn o bryd i ddisgrifio'r rhai sy'n rhoi cymorth dysgu i blant. Byddai'n gamarweiniol awgrymu bod y termau hyn yn disgrifio'r un rolau a chyfrifoldebau. Yn hytrach, maent yn dangos gwahaniaethau pwysig mewn rolau ac maent yn arwyddocaol am eu bod yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o waith y mae staff cymorth dysgu yn ei wneud.

Ers y 1980au, mae rôl ddyddiol llawer o gynorthwyr addysgu ledled y DU wedi newid cryn dipyn. Mae pwyslais pendant llywodraethau ar lythrennedd a rhifedd wedi arwain llawer o gynorthwyr addysgu i gyflawni dyletswyddau cysylltiedig ag addysgu ('teaching-related') o'r fath - gwaith a fyddai ond wedi cael ei wneud gan athro cymwys yn y gorffennol. Mae Barbara Lee (2003, t. 27) yn nodi'r newid ran cymorth anuniongyrchol

('indirect support') (h.y. cynhyrchu deunyddiau a rheoli adnoddau) a chymorth union-gyrchol ('direct support') (h.y. gweithio gyda phlant unigol a grwpiau bach).

Er gwaethaf y newid hwn mewn dyletswyddau, mae angen cyflawni tasgau i gynnal a chadw'r amgylchedd dysgu o hyd, gan mai'r rhain sy'n ei gwneud yn bosibl i addysgu a dysgu. Felly, mae'n briodol gofyn: pwy sy'n gwneud y gwaith hwn os yw cynorthwyr yn treulio mwy o amser yn helpu plant i ddysgu? Efallai bod gennych rai syniadau ynglŷn â hyn. Efallai mai un ateb yw bod tasgau cynnal a chadw yn cael eu rhannu mwy rhwng athrawon, cynorthwyr addysgu, gwirfoddolwyr a phlant.

## 1.5 Ffyrdd o weithio a chyfrannu

Mae cynllun ffisegol y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn adlewyrchu'r disgwyliad bod athrawon yn gweithio mewn ystafelloedd dosbarth gyda nifer fawr o blant. Mewn gwirionedd, gan fod dosbarthiadau mor fawr, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn teimlo'n eithaf llawn. Mae nifer y cynorthwyr addysgu a gyflogir yn golygu bod nifer yr oedolion sy'n gweithio mewn rhai ystafelloedd dosbarth wedi dyblu ac, fel y nododd Schlapp a Davidson (2001), mae hyn weithiau wedi'i gwneud hi'n anodd i gynorthwyr addysgu ddod o hyd i leoedd gwaith iddynt hwy eu hunain. Yn aml, maent yn rhoi cymorth wrth weithio ochr yn ochr ag athrawon, gan roi cymorth pellach mewn lleoliad arall. Yn eu harolwg o 275 o gynorthwyr addysgu mewn dau awdurdod lleol yn Lloegr, nododd Hancock et al (2002) i 91 y cant o'r ymatebwyr ddweud eu bod weithiau'n tynnu plant allan o ystafelloedd dosbarth.



Ffigur 3 Cindy Bhuhi, cynorthwydd addysgu dwyieithog, Ysgol Babanod Lee, Slough

Mae ymdeimlad pellach bod cynorthwyr addysgu wedi gorfod dod o hyd i 'le' i'w gwaith. Fel rhan o weithlu cymharol newydd, maent wedi gorfod integreiddio eu hymarfer cymorth ag ymarfer addysgu parhaus athrawon a gweithio fel rhan o 'dîm' addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

## Gweithgaredd 2 Cyd-destunau ar gyfer cymorth dysgu

40 munud

Mae'r fideo canlynol yn dangos cynorthwyr addysgu mewn llawer o gyd-destunau gwaith. Cafodd y naw clip byr yn y fideo hwn eu recordio yn ystod ymweliadau ag ysgolion cynradd ledled y DU.

Wrth i chi wyllo'r fideo, gwnewch nodiadau yn y blwch isod ar rolau a chyd-destunau'r cynorthwyr addysgu hyn. Os ydych yn cyflawni rôl cymorth dysgu neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol, ystyriwch i ba raddau y mae'r bobl yn y clipiau hyn yn adlewyrchu eich rôl a'ch cyd-destunau gwaith amrywiol chi. Pa rolau cynorthwyo addysgu sydd debycaf i'ch profiad chi?

Cyflwynir y fideo hwn yn Saesneg, a cheir trawsgrifiad Cymraeg isod.

Video content is not available in this format.



*Provide your answer...*

### Comment

Ar un adeg, roedd disgwyl i athrawon weithio mewn ysgolion heb y math o gymorth a ddarperir gan y cynorthwyr addysgu yn y fideo hwn, felly mae'n werth ystyried sut mae cynorthwyr addysgu wedi'u hintegreiddio yng ngweithlu ysgolion cynradd. Mae'n sicr y byddai staff mewn ysgolion cynradd yn dadlau bod mawr angen hyn, gan fod rhaid cael mwy o oedolion er mwyn diwallu anghenion personol, cymdeithasol ac addysgol plant. Yn swyddogol, y cyfiawnhad dros y ddarpariaeth hon yw bod cynorthwyr addysgu yn helpu i 'goddi safonau' mewn meysydd o'r cwricwlwm a gaiff eu mesur. Yn amlwg, mae hyn yn bwysig, ond ar yr un pryd mae fel pe bai'n bychanu eu cyfraniad, sy'n llawer ehangach. Er enghraifft, mae'r fideo yn dangos gallu pob cynorthwyr addysgu nid yn unig i helpu plant i ddysgu, ond hefyd i ryngweithio ac ymdeimlo â phlant mewn ffyrdd sy'n gwella eu hunanddelwedd a'u profiadau o fywyd ysgol.

## 1.6 Twf y gweithlu cynorthwyr addysgu

Rhwng canol y 1990au a 2012, gwelwyd cynnydd ym mhedair gwlad y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) yn nifer y cynorthwyr addysgu a oedd yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon yn ystafelloedd dosbarth ysgolion cynradd. Fel y dywedwyd eisoes, dechreuodd y datblygiad hwn yn y 1980au pan gyflogwyd staff cymorth er mwyn helpu i gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig mewn ystafelloedd dosbarth prif ffrwd. Recriwtiwyd cynorthwyr addysgu er mwyn rhoi help mwy personol i'r plant hyn. Mewn rhai rhannau o'r DU, mae gweinyddesau meithrin wedi gweithio ers tro mewn ystafelloedd dosbarth meithrin a babanod lle credir bod angen cymhareb uwch o oedolion i weithio gyda phlant bach.

Mae'r twf cyflym mewn cynorthwyr addysgu a ddechreuodd ar ddechrau'r 2000au wedi cyflwyno rolau newydd, fel mentor dysgu, CALU a chynorthwydd cymorth rhieni. Awgrymodd Will Swann a Roger Hancock (2003, t.2) y gwelwyd 'dramatic shift in the composition of the primary classroom workforce'. I raddau helaeth, digwyddodd y cynnydd hwn o ganlyniad i raglenni gwariant penodol gan lywodraethau ledled y DU. Yn Lloegr, yn enwedig, rhoddwyd pwyslais pendant ar dargedau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar ddiwedd y 1990au a dechrau'r 2000au, a darparwyd arian er mwyn recriwtio cynorthwyr addysgu i gefnogi'r un plentyn ym mhob pedwar nad oedd yn gwneud y cynnydd gofynnol (Hancock ac Eyres, 2004).

Felly, mae cynorthwyr gwirfoddol a chyflogedig yn rhan o ddatblygiad hanesyddol mawr sy'n cael effaith bellgyrhaeddol ar drefn addysg gynradd, profiadau'r plant mewn ystafelloedd dosbarth a'r ffyrdd y caiff plant eu haddysgu mewn ysgolion. Yn eu hadroddiad ar eu hastudiaeth fawr, *'The Deployment and Impact of Support Staff in Schools' (DISS) project*, mae Blatchford et al. (2012) yn cyfeirio at ystadegau gan y llywodraeth sy'n dangos bod nifer y swyddi i gynorthwyr addysgu cyfwerth ag amser llawn ym mhob ysgol brif ffrwd yn Lloegr wedi treblu ers 1997 i gyfanswm o 170,000 yn 2010. Roedd hyn yn cyfateb i 24 y cant o'r gweithlu mewn ysgolion prif ffrwd yn gyffredinol ac, yn fwy penodol, 32 y cant o'r gweithlu mewn ysgolion meithrin a chynradd prif ffrwd. Nododd Blatchford et al. hefyd, erbyn 2010, fod cynorthwyr addysgu yn cyfrif am 44 y cant o'r gweithlu mewn ysgolion cynradd yng Nghymru a 24 y cant yn yr Alban.

## 1.7 Datblygu cynorthwyr addysgu yng Nghymru

Drwy ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddulliau Addysgu Digidol yn yr Ystafell Ddosbarth, sefydlodd Llywodraeth Cymru 'Hwb' a 'Dysgu Cymru' yn 2012. Amgylchedd dysgu rhithwir i Gymru gyfan yw 'Hwb', sy'n cynnwys adnoddau ar-lein i ymarferwyr addysg. (<https://hwb.wales.gov.uk/home/Pages/Home.aspx>)

Mae Hwb yn cynnwys 'Dysgu Cymru', sef gwefan a gynlluniwyd i gynorthwyo amrywiaeth o bobl yn y gweithlu ysgolion, gan gynnwys cynorthwyr cymorth dysgu yng Nghymru. (<http://learning.wales.gov.uk/?skip=1&lang=cy>)

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y *Cynllun gweithredu i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru* sydd ar gael yn 'Dysgu Cymru' (Llywodraeth Cymru, 2013a)

Nod y cynllun yw:

- cyflwyno cyfres integredig o safonau proffesiynol/galwedigaethol ar gyfer staff cymorth dysgu yng Nghymru

- diwygio'r safonau proffesiynol sy'n gysylltiedig â statws Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (CALU)
- cysoni rhaglenni sefydlu ar gyfer staff cymorth dysgu mewn ysgolion er mwyn cadarnhau disgwyliadau a rolau
- cyflwyno polisi model rheoli perfformiad newydd ar gyfer staff cymorth dysgu
- targedu hyfforddiant a datblygiad staff cymorth dysgu ochr yn ochr â staff ysgol eraill, fel rhan o strategaethau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ehangach.

Ochr yn ochr â'r ymrwymiad newydd hwn gan Lywodraeth Cymru i roi sylw i anghenion datblygu proffesiynol cynorthwyr cymorth dysgu, cafwyd manylion ynglŷn ag amrywiaeth o adnoddau a fydd yn helpu i wneud hyn. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys rhaglen gymorth genedlaethol i gyflawni'r fframwaith llythrennedd a rhifedd (FfLIRh), adnoddau i ymarferwyr werthuso a gwella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu hunain, adnodd hunanasesu ar-lein, sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol (CDPau) a'r 'Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg'. Mae'r Cynllun Sabothol hwn yn cynnig cwrs Cymraeg lefel mynediad am bum wythnos i bob ymarferydd cynradd sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i'w helpu i ddatblygu geirfa a sgiliau ieithyddol sy'n berthnasol i ymarfer cynradd.

Roedd y *Cynllun gweithredu i hyrwyddo rôl a hybu datblygiad staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru* gan Lywodraeth Cymru yn cydnabod 'yn hanesyddol, ychydig o wybodaeth sydd wedi cael ei chasglu am staff cymorth [dysgu yng Nghymru] sy'n ffurfio cyfran sylweddol o'r gweithlu mewn ysgolion (44 y cant). Mae hyn yn golygu nad oes fawr o wybodaeth am eu rolau presennol, y lefelau cyflog a'u cymwysterau a'u hanghenion datblygu, i lywio ymyriadau a datblygiadau polisi.' Mae'r cynllun yn nodi bwriad i gasglu mwy o ddata ystadegol am gynorthwyr cymorth dysgu yng Nghymru, fel y gall Llywodraeth Cymru '[gyflawni'r] ymrwymiad i staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru [a] darparu gweithlu hynod fedrus i holl ysgolion Cymru.' (*ibid*, t.4). Tra bod cynorthwyr cymorth dysgu yng Nghymru yn 'cefnogi athrawon a gweithio'n uniongyrchol â dysgwyr', bu cynnydd hefyd, fel y gwelwyd mewn rhannau eraill o'r DU, o ran 'rolau cefnogi eraill y mae ysgolion yn dibynnu arnynt i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei gweinyddu'n effeithiol, [sy'n] rhyddhau athrawon a phenaethiaid i ganolbwyntio ar eu pwrpas craidd, sef rhoi gwasanaeth addysgu a dysgu o safon uchel.' (*ibid*, t.2)

## 1.8 Cynorthwyr addysgu yn Ewrop

Mae cynorthwyr addysgu a staff cymorth dysgu cysylltiedig eraill yn gweithio hefyd mewn ysgolion i blant aelodau o luoedd arfog Prydain sydd wedi'u lleoli dramor, ysgolion mewn gwledydd Ewropeaidd eraill a thu hwnt mewn gwledydd fel UDA, Canada ac Awstralia. Yn 1998, tynnodd arolwg gan Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) sylw at rai rolau cymorth diddorol mewn ysgolion Ewropeaidd, ac mae'n werth ystyried y rhain yng ngoleuni rôl ddatblygol cynorthwyr addysgu yn y DU. Fel y credai'r cymdeithasegydd Amitai Etzioni (1969, t.vi), drwy gymharu gallwn wella ein hymwybyddiaeth ('scope of awareness'). Nododd yr NUT yr enghreifftiau canlynol o rolau cymorth yn yr Iseldiroedd, Ffrainc a Gwlad Belg.

Yn yr Iseldiroedd, fel yn y DU, mae cynorthwyr addysgu wedi gweithio mewn ysgolion cynradd ers tro, gan weithio'n aml yn y cefndir i gefnogi plant bach a'u hathrawon. Gellir cymharu eu rôl bresennol â rôl cynorthwyr addysgu arbenigol yn Lloegr gan eu bod yn canolbwyntio ar helpu plant i ddysgu'n uniongyrchol, yn enwedig sgiliau rhifedd a llythrennedd sylfaenol.

Yn Ffrainc, ceir '*surveillants*' (sydd rhwng 18 a 26 oed fel arfer) sy'n aml yn bwriadu dod yn athrawon. Yn draddodiadol, maent wedi helpu i oruchwylio disgyblion pan fyddant ar safle'r ysgol a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fel rhan o'r rôl oruchwylio hon, maent hefyd yn cysylltu â rhieni. Yn fwy diweddar, mae eu rôl wedi ymestyn i roi cymorth i blant ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Maent wedi cael cyfrifoldebau ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) am gynnal a chadw offer a helpu plant i ddysgu. Mae yna hefyd '*aide-éducateurs*' (athrawon cynorthwyol) sy'n cyflawni rôl addysgu yn bennaf er mwyn helpu plant i ddysgu'n uniongyrchol a hwyluso gweithgareddau allgyrsiol.

Yng Ngwlad Belg, ceir '*agents contractuels subventionnés*' (gweithwyr contract wedi'u sybsideiddio). Cânt eu recriwtio fel rhan o gynlluniau i leihau diweithdra a gallant gyflawni dyletswyddau gofal plant mewn lleoliadau cyn-ysgol neu helpu plant i ddysgu iaith dramor.

## 1.9 Cynorthwywyr addysgu a'r Brifysgol Agored

Rhwng 1995 a 2012, hyfforddodd y Brifysgol Agored ychydig dros 8,000 o gynorthwywyr addysgu drwy ei chwrs E111 Cefnogi dysgu mewn ysgolion cynradd a'i chwrs ar gyfer Cynorthwywyr Athrawon Arbenigol sydd bellach wedi dod i ben. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn fenywod ac roedd llawer ohonynt yn famau; canran fach iawn o ddynion a hyfforddwyd. Mae Heather Wakefield (2003), pennaeth cyswllt â llywodraeth leol UNSAIN, sef un o undebau llafur mwyaf y DU sy'n cynrychioli staff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng gwaith gofalu yn y sector cyhoeddus a'r ffaith mai menywod sy'n cael eu recriwtio gan amlaf i'r gweithlu 'parabroffesiynol'. Mae'n awgrymu bod rôl y fenyw yn y cartref a'r teulu yn cael ei 'mewnforio' i'r gweithle gan ei bod yn werthfawr mewn sawl ffordd, yn enwedig ei gallu i gefnogi a gofalu. Fodd bynnag, mae Wakefield yn pwysleisio nad yw'r gwaith hwn wedi talu'n dda yn draddodiadol a'i fod wedi cael statws 'gweithiwr llaw' isel gan gyflogwyr.

Roedd gan lawer o'r cynorthwywyr addysgu sydd wedi astudio â'r Brifysgol Agored hyd yma blant a gafodd eu haddysgu yn yr ysgol lle roeddent yn gweithio, felly roeddent yn byw'n lleol ac yn rhan o gymuned ehangach yr ysgol. Felly, yn amlwg, mae ysgol leol yn weithle cyfleus i riant, gan ei fod yn lleihau'r daith o'r cartref i'r gwaith. Mae hefyd yn galluogi'r rhai a gyflogir mewn ysgolion i weithio yn ystod oriau ysgol a chymryd amser i ffwrdd yn ystod gwyliau'r ysgol (er bod hynny'n ddi-dâl yn aml). Hefyd, oherwydd y pwyslais ar addysgu plant, mae'n debygol y caiff materion yn ymwneud â gofal plant y tu allan i'r ysgol eu gwerthfawrogi a'u deall mewn ysgol. Mae rhai o'r farn bod ysgol yn 'gyflogwr sy'n ystyriol o deuluoedd' i ddefnyddio ymadrodd cyfoes. Yn ogystal, mae ysgolion yn weithleoedd lle gall gwybodaeth am blant a'u harferion fod yn werthfawr ac yn ddefnyddiol. Gellir ystyried ysgol gynradd yn gymuned o oedolion a phlant hefyd, lle mae person lleol yn debygol o deimlo'n rhan o rwydwaith cymdeithasol parhaus o ffrindiau, teuluoedd ac wynebaw cyfarwydd lleol.

### Gweithgaredd 3 Eich rhesymau

Dylech dreulio tua 20 munud ar y dasg hon

Gan ystyried y pwyntiau uchod, os ydych yn cyflawni rôl cymorth dysgu neu os hoffech wneud hynny, rhestrwch yn y blwch isod y rhesymau pam yr hoffech wneud y math hwn o waith.

Provide your answer...

### Comment

Gwnaethom wahodd Mary-Jane Bayliff, cynorthwydd addysgu sy'n gweithio mewn ysgol yn Dorset, i roi ei rhesymau dros weithio mewn ysgolion. Ysgrifennodd Mary:

I have always wanted to work with children. I had experience of work relating to children, for example at camps and in clubs. I felt my experience as a mother and childminder was a good foundation from which to start. I was keen to look after my own children during school holidays and during after-school hours. I had a particular interest in my own children's school, having been a volunteer helper and member of the PTA. After seeing school through a parent's eyes, I felt I had something of value to give, in terms of caring for children and bringing an understanding to home-school relations.

Yn amlwg, mae gan Mary-Jane lawer o brofiad blaenorol sy'n cyfrannu at ei gallu fel cynorthwydd addysgu.



Ffigur 4 Gary Fookes, cynorthwydd cymorth dysgu, Ysgol Sir Charles Lucas, Colchester



## 2 Cyfraniad a rolau

Yn eu gwerthusiad o'r ffyrdd y gall athrawon a chynorthwywyr addysgu gydweithio mewn timau, mae Hilary Cremin et al. (2003) yn awgrymu, er bod brwdfrydedd i ddarparu cymorth ychwanegol, mai ychydig o sylw a roddir i sut mae hyn yn gweithio mewn gwirionedd yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n wir bod staff cymorth dysgu wedi cael eu cyflwyno i ystafelloedd dosbarth heb dystiolaeth ymchwil glir i ddangos y gallant wneud gwahaniaeth i addysg plant, ond rhaid cydnabod hefyd fod bywyd yn aml yn datblygu'n gyflymach na'r cyflenwad o dystiolaeth ymchwil.

Fel y dywedwyd, caiff gwirfoddolwyr eu gwahodd yn aml i fynd i ysgolion er mwyn cynorthwyo athrawon, a chaiff cynorthwywyr addysgu eu cyflogi er nad ydynt wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol o reidrwydd (ond mae hyfforddiant mewn swydd yn gynyddol gyffredin). Fodd bynnag, fel y gwnaethom awgrymu hefyd, yn aml, mae gan wirfoddolwyr a chynorthwywyr addysgu brofiad anffurfiol perthnasol, galluoedd trosglwyddadwy a sgiliau greddfrol a all gefnogi'r hyn a wnânt mewn ysgolion. Yn ogystal, mae synnwyr cyffredin yn awgrymu, pan fo gan ddosbarthiadau mawr o blant oedolion ychwanegol wrth law sy'n awyddus i'w helpu a'u cefnogi, y bydd hyn yn cael effaith ffafriol ar eu haddysg a'u datblygiad. Yn yr un modd, mae llawer o ysgolion yn mynd ati i annog rhieni i helpu eu plant gyda'u gwaith cartref.

### 2.1 Beth yw gwerth cynorthwywyr addysgu?

Mae'r dystiolaeth o werth cynorthwywyr addysgu wedi cynyddu dros amser, yn enwedig mewn adroddiadau ymchwil. Yn eu harolwg o athrawon babanod yn Lloegr, nododd Kathy Hall a Wendy Nuttall (1999) fod 75 y cant ohonynt o'r farn bod cynorthwywyr ystafell ddosbarth mor bwysig â maint y dosbarth, neu'n bwysicach, o ran ansawdd addysgu a dysgu. Darparodd Valerie Wilson et al. (2002) dystiolaeth o'r Alban ac ychwanegodd Roger Hancock et al. (2002) dystiolaeth o Gymru a Lloegr. Mae cyfeiriadau at waith pwysig staff cymorth dysgu i'w gweld hefyd mewn adroddiadau arolygu ffurfiol gan y cyrff arolygu cenedlaethol. Yng Ngogledd Iwerddon, dywedodd adroddiad un prif arolygydd, 'Evidence from inspection highlights the positive contribution made by classroom assistants, including those employed under the "Making a Good Start" initiative (MAGS), in helping to promote and support the children's early learning and development.' (ETI, 2002).

Ystyriodd yr astudiaeth fawr gan Blatchford et al. (2012) ddwy agwedd ar yr effaith:

1. yr effeithiau ar athrawon o ran eu llwyth gwaith, eu boddhad yn eu swyddi a lefelau straen, a'u gwaith addysgu
2. yr effeithiau ar ddisgyblion, o ran eu gwaith dysgu a'u hymddygiad, mesurau o ddulliau dysgu cadarnhaol a'u cynnydd academaidd mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Fel y gellir disgwyl o gofio'r astudiaethau ymchwil eraill a wnaed hyd at hynny, nododd yr ymchwilwyr fod cynorthwywyr yn cael effeithiau cadarnhaol ar athrawon a'u gwaith addysgu. Un peth a wnaeth beri syndod, fodd bynnag, oedd y 'gydberthynas negyddol' a nodwyd rhwng cymorth gan gynorthwywyr addysgu a'r mesuriadau o gynnydd academaidd disgyblion. Yn groes i synnwyr cyffredin, gwnaethant nodi 'The more

[teaching assistant] support pupils received, the less progress they made.' (Blatchford et al., 2012, t.46). Efallai ei bod yn anodd credu hyn.

Fodd bynnag, nid yw'r awduron yn beio cynorthwyr addysgu. Yn hytrach, maent yn egluro'r canfyddiad hwn drwy gyfeirio at ffactorau sy'n effeithio ar gyd-destunau gwaith cynorthwyr, y ffaith nad ydynt yn cael eu briffio fawr ddim yn gyffredinol a'r angen i athrawon rannu'r sgiliau a'r wybodaeth ychwanegol sydd ganddynt. Serch hynny, mae ein cysylltiad â chynorthwyr addysgu a'u gwaith dros gyfnod hir yn awgrymu bod y realiti yn llawer mwy cymhleth.

## 2.2 Barn plant a rhieni

Beth yw barn plant a rhieni ar gynorthwyr addysgu? Mae'n ddiddorol nodi mai ychydig o wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi am eu safbwyntiau. Dangosodd astudiaeth fach â 78 o blant oedran cynradd yn Lloegr (Eyres et al., 2004) y gall plant, pan ofynnir iddynt wneud hynny, wahaniaethu rhwng eu hathro dosbarth ac oedolion eraill sy'n gweithio gyda nhw. Fodd bynnag, dywedodd y plant bod gorgyffwrdd sylweddol rhwng gweithgareddau athrawon a chynorthwyr addysgu. Er enghraifft, dywedodd Sarah, wyth oed:

Well, the helpers seem to help out and do what the teacher does and the teacher seems to mostly teach children. But sometimes the helpers teach children.

Dywedodd Lissette, 11 oed:

Well, Miss McAngel is the actual teacher, teacher, teacher. She actually teaches us everything because she's just a teacher and she teaches us everything. But, if you like, you've got another teacher, they teach us – pretty much they'd teach us everything but Miss McAngel would do different things with us – d'you know what I mean? – sort of, I can't put it into words really – but – can you help? (looking towards Tim, her friend).

(Eyres et al., 2004, pp. 157–158)



Ffigur 5 Mae darlun Soraya, Blwyddyn 2, o'r oedolion sy'n gweithio yn ei hystafell ddosbarth yn dangos y newidiadau yng ngweithlu ysgolion cynradd

I raddau helaeth, roedd y plant yn yr astudiaeth hon yn teimlo bod athrawon a chynorthwyr addysgu yn gweithio mewn ffyrdd 'rhyngddibynno', gyda phob un ohonynt yn gwneud cyfraniad mawr i addysg y plant.

O ran rhieni, o gofio bod llawer o gynorthwyr addysgu yn rhieni o'r gymuned leol, gallwn ddamcaniaethu bod rhieni eraill yn gyfarwydd â'r ffyrdd y mae athrawon wedi mynd ati'n gynyddol i ddirprwyo rhai cyfrifoldebau addysgu i gynorthwyr. Ond efallai nad yw hyn yn wir. Wedi'r cyfan, mae cynorthwyr addysgu yn weithlu cymharol newydd. Pan roedd rhieni heddiw yn yr ysgol gynradd, ni fyddent wedi cael profiad o gynorthwyr yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon, fel y mae plant nawr.

Yn ôl holiadur gan ddau gynorthwydd athro arbenigol yn Ysgol Gymunedol Roche yng Nghernyw (Strongman a Mansfield, 2004) a oedd yn holi am farn rhieni ar gynorthwyr, gwelwyd bod y rhan fwyaf o rieni yn rhoi pwys mawr ar gyfraniad cynorthwyr addysgu. Fel yr ysgrifennodd un rhiant, 'They are of value as a backup for the teacher, as an extra pair of eyes in the classroom.' Nododd rhiant arall, 'A good assistant can be priceless in the classroom. With up to 37 children in each class, how could a teacher do her [sic] job effectively without assistants?'

Fodd bynnag, er bod y rhieni hyn yn cydnabod rôl bwysig cynorthwyr yn ysgol gynradd eu plant, teimlai llawer ohonynt hefyd y dylai fod gwahaniaeth clir rhwng rolau athrawon a chynorthwyr addysgu. Fel y dywedodd un rhiant, 'Teaching assistants should not "teach" the class, they should only assist the teacher.' Mae'n amheus i ba raddau y gall y gwahaniaeth ieithyddol hwn - rhwng 'addysgu' a 'chynorthwyo' - gael ei gynnal mewn ystafelloedd dosbarth lle mae llawer o athrawon a chynorthwyr addysgu bellach yn cydweithio'n agos mewn timau. Pan fo cynorthwydd addysgu yn 'cynorthwyo' neu'n

'cefnogi' neu'n 'helpu' plentyn, mae bob amser yn bosibl y bydd y plentyn yn dysgu. Felly, gellid dweud bod y cynorthwydd wedi 'addysgu' y plentyn hwnnw, fel y gellid dweud bod rhieni yn addysgu llawer o bethau i'w plant a bod plant yn aml yn addysgu ei gilydd.

Efallai mai ffordd fwy priodol o ystyried hyn yw dweud mai athrawon, fel gweithwyr proffesiynol cymwys, sy'n bennaf cyfrifol am y gwaith addysgu a dysgu sy'n digwydd mewn ystafell ddosbarth. Mae'n ymddangos bod plant yn deall hyn. Yn yr astudiaeth gan Eyres et al. (2004) roedd nifer o blant yn gwybod yn glir mai'r athrawon yn eu hystafelloedd dosbarth oedd yn bennaf cyfrifol. Fel y dywedodd Sam, chwech oed:

Well, Mrs Wilson and Mrs Georgio [both teaching assistants] don't tell us what to do. Mrs Watts [the teacher] tells us what to do.

(Eyres et al., 2004, p. 155)

## 2.3 Cyfraniadau unigryw

Yng Ngweithgaredd 1, gwnaethoch edrych ar rolau cymorth amrywiol Jean, sef cynorthwydd cymorth disgyblion. Gadewch i ni nawr ystyried y gwaith hanfodol y mae cynorthwyyr yn ei wneud a'r ffordd y maent yn cyfrannu at waith ystafell ddosbarth yn ei gyfanrwydd.

Ai 'dim ond' cynorthwyo athrawon i wneud eu gwaith y mae cynorthwyyr addysgu? Os felly, mae'n ymddangos bod athrawon a chynorthwyyr yn cydweithio i gyflawni'r dyletswyddau y byddai athrawon wedi'u cyflawni ar eu pen eu hunain yn y gorffennol. Ar sail y dadansoddiad hwn, mae cynorthwyyr addysgu yn ymgymryd â dyletswyddau ar draws yr ysgol gyfan ac mewn ystafelloedd dosbarth y mae athrawon yn teimlo y gallant eu dirprwyo i gydweithiwr llai cymwys, ond nid llai profiadol o reidrwydd. Yn ymarferol, dylai hyn olygu bod gan athrawon amser 'sbâr' i wneud tasgau ychwanegol o'u dewis, am fod rhywun arall yn gwneud rhan o'u gwaith. Neu, efallai bod cynorthwyyr addysgu, yn rhannol, yn gwneud tasgau nad oes gan athrawon amser i'w gwneud eu hunain. Os felly, mae'r gwaith o addysgu dosbarth wedi 'ehangu', gan fod athrawon a chynorthwyyr addysgu yn dal i ddod o hyd i fwy na digon o waith i'w wneud.

Diben disgrifiadau swydd yw nodi'r gwaith y dylai cynorthwyyr addysgu ei wneud. Gellir ei rannu mewn categorïau fel 'dyletswyddau gweinyddol', 'paratoi adnoddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth' a 'gweithio gyda phlant'. Darparwyd fframwaith diddorol i ystyried rolau, dyletswyddau a ffocws gwaith cymorth gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth (2000, para. 2.5), a awgrymodd bedair lefel o gymorth i'r canlynol:

- disgyblion
- yr athro
- yr ysgol
- y cwricwlwm.

Byddwch yn ystyried pa mor ddefnyddiol yw'r fframwaith hwn yn y gweithgaredd nesaf.

## Gweithgaredd 4 Rolau a chyfrifoldebau

1 awr

Darllenwch [Deunydd Darllen 1](#), 'Ten titles and roles' gan Roger Hancock a Jennifer Colloby (2013). Mae'n cynnwys brasluniau o rolau a chyfrifoldebau deg aelod o staff cymorth dysgu.

Dewiswch un braslun sydd o ddiddordeb penodol i chi ac ystyriwch i ba raddau y mae'r teitl a'r rôl a ddisgrifir yn cysylltu â fframwaith pedair rhan yr Adran Addysg a Chyflogaeth. A yw'r fframwaith yn adlewyrchu eich wythnos waith yn ei chyfanrwydd neu, os nad oes gennych swydd cymorth dysgu ar hyn o bryd, eich syniad o wythnos waith cynorthwydd addysgu?

*Provide your answer...*

### Comment

Ffactor nad ydym wedi'i chrybwyll eto, ond sy'n effeithio ar y ffyrdd y caiff cynorthwyr addysgu eu defnyddio, yw eu hyblygrwydd fel gweithlu. Caiff llawer eu cyflogi'n rhan amser, yn aml ar gontractau byrdymor a bydd eu tasgau'n newid yn rheolaidd. Dywedodd un cynorthwydd ystafell ddosbarth wrthym, 'My job description changes every term!' Gall cynorthwyr addysgu gael eu symud o gwmpas yr ysgol fel y gallant weithio gydag unigolion a grwpiau o blant yn ôl yr angen. Fel y gwyddoch efallai, yn Lloegr, cyflwynodd strategaethau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol y llywodraeth nifer fawr o raglenni dal i fyny ('catch-up') ac atgyfnerthu ('booster') i blant nad ydynt yn cyflawni disgwyliadau. Mae cynorthwyr addysgu wedi chwarae rôl flaenllaw yn y rhaglenni hyn, sy'n galw arnynt i fod yn hyblyg iawn gan eu bod yn gweithio ar draws grwpiau blwyddyn gyda phlant penodol.

## 2.4 Rôl ddatblygol yr athro

Ar y cyfan, cydnabyddir bod cyfraniad cynyddol cynorthwyr addysgu yn cael effaith gadarnhaol ar rôl yr athro. Fodd bynnag, mae'n werth cydnabod bod llawer o athrawon wedi gorfod addasu eu hymarfer er mwyn gweithio gyda chynorthwyr addysgu fel rhan o dîm. Mae llawer yn llwyddo i wneud yr addasiadau hyn. Rydym weithiau, fodd bynnag, yn clywed am athrawon sy'n ei chael hi'n anodd cydweithio'n dda gydag oedolyn arall yn yr ystafell ddosbarth. Er gwaethaf presenoldeb cynorthwyr mewn ysgolion cynradd, mae hyfforddiant cychwynol athrawon i raddau helaeth yn dal i ganolbwyntio ar athrawon yn gweithio mewn ystafelloedd dosbarth ar eu pen eu hunain yn hytrach na chydweithio ag oedolion eraill. Felly, efallai y bydd angen amser ar athrawon sydd newydd ennill statws athro cymwysedig (SAC) i benderfynu sut yr hoffent fynd ati i weithio mewn tîm ac, yn ei hanfod, y cysyniad o 'addysgu mewn tîm'.



Ffigur 6 Oedolion yn gweithio fel tîm i helpu disgyblion i ddysgu

Byddai'r rhan fwyaf, os nad pawb, yn cytuno bod cynorthwyr addysgu o fudd sylweddol i athrawon a phlant a bywyd yr ysgol yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, er y dywedir bod cynorthwyr addysgu yn lleihau baich gwaith athrawon, nid yw'r realiti mor syml. Er mwyn i athrawon gael budd o'r arbenigedd y gall cynorthwydd addysgu hyddysg ei gynnig i'r bartneriaeth, mae angen iddynt ddod o hyd i amser i drafod a rhannu syniadau ar addysgu a'r cwricwlwm. Mae hyn yn debyg i'r rôl y mae athrawon yn ei chwarae wrth oruchwylio myfyrwyr ymarfer dysgu, gan fod cydgyllunio, cydaddysgu ac adborth yn nodweddion amlwg iawn o gamau cynnar eu hyfforddiant.

Darllenwn yn aml fod cynorthwyr yn 'gweithio o dan oruchwyliaeth agos athrawon' neu fod athrawon yn 'rheoli' cynorthwyr addysgu. Mae hon yn rôl feichus, sy'n mynd â chryn dipyn o amser addysgu athrawon a'r amser pan nad ydynt yn addysgu. Yn ogystal, mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i athrawon gymryd cyfrifoldeb am ryngweithio dyddiol cynorthwyr addysgu gyda phlant a goruchwylio eu gwaith cymorth. Yn wahanol i athrawon, ni all cynorthwyr fod *in loco parentis* (o'r Lladin sy'n golygu, yn llythrennol, 'yn lle rhiant') ac felly ni allant gymryd y cyfrifoldeb cyfreithiol llawn sydd gan athrawon pan fo plant yn eu gofal. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gynorthwyr addysgu gael eu harwain a'u cynorthwyo gan athrawon, nid yn unig o ran eu hymarfer i gefnogi'r cwricwlwm ond hefyd mewn meysydd gwaith allweddol fel iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant.

Mae'r mwyafrif helaeth o athrawon yn cydnabod y rôl y mae'r gwaith ychwanegol hwn yn ei chwarae er mwyn creu gweithlu addysgu yn y dyfodol; at hynny, maent yn gwybod y gall rhannu arfer da ac arsylwi cydweithwyr eu helpu i ddatblygu eu rôl eu hunain. O gofio nad oes fawr ddim amser digyswllt mewn ysgolion cynradd, mae'n rhaid i gynorthwyr addysgu ac athrawon reoli'r amser prin sydd ganddynt yn ofalus er mwyn cael trafodaethau cynhyrchiol.

## 3 Cymorth ar waith

Gall rôl y cynorthwyydd addysgu i gefnogi gwaith addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth ddatblygu dros amser. Fel arall, gall cynorthwyydd gael ei recriwtio i'r rôl at y diben hwnnw, neu efallai fod ei rôl rhywle tua'r canol, ar ôl iddo ymuno â'r gweithlu cynorthwyyr addysgu pan oedd y rôl yn cael ei hadolygu ac yn ehangu ac yn datblygu. Yn yr adran olaf ond un o'r uned hon, rydym yn newid pwyslais ychydig i edrych ar ymarfer unigol y cynorthwyydd addysgu Caroline Higham.

### 3.1 Canolbwyntio ar ymarfer



Ffigur 7 Caroline Higham

Mae Caroline Higham yn gymharol newydd i'r rôl cynorthwyydd addysgu amser llawn. Mae ganddi ddau blentyn a gafodd eu haddysgu yn yr ysgol lle mae'n gweithio. Mae awyrgylch croesawgar yn yr ysgol ac mae arddangosiadau ysgogol ar y waliau.

Mae Caroline yn gweithio gyda grwpiau bach o blant yn ogystal ag unigolion ac yn y pen draw mae'n gobeithio dod yn athro cymwys. Mae wrthi'n astudio'n rhan amser i gwblhau gradd berthnasol.

Dros yr ychydig flynyddoedd y mae Caroline wedi gweithio yn yr ysgol, mae ei rôl wedi tyfu, a hynny o ran ei horiau gwaith a natur ei chyfrifoldebau. Mae'n gyfrifol bellach am drefnu a rhedeg rhaglen ddarllen yr ysgol ac mae'n gweithio'n agos gyda'r pennaeth, sy'n gyfrifol am yr agwedd hon ar y cwricwlwm. Mae Caroline yn gysylltiedig â'r gwaith o ailwampio llyfrgell yr ysgol a phrynu llyfrau newydd i'r llyfrgell. Mae'n mwynhau ei chyfrifoldeb cysylltiedig am gynnydd a chyrhaeddiad plant. Mae'n cadw cofnodion o'r plant unigol y mae'n eu cynorthwyo, ac mae'n diweddarau'r cofnodion hyn ar ddiwedd pob diwrnod ysgol ac yn eu rhannu â staff.

Mae Caroline wedi meithrin dealltwriaeth ynglŷn â sut mae plant unigol yn dysgu yn ogystal â'r rhwystrau i ddysgu y gallent ddod ar eu traws. Mae rhieni'n gofyn iddi'n aml am gyngor, ac mae'n rhaid iddi farnu'n ofalus pryd i drosglwyddo'r wybodaeth y mae'n ei chael gan rieni, ac unrhyw bryderon sydd ganddi am rieni, i'r staff addysgu. Yn ei rhan ei hun o'r ysgol, lle mae weithiau'n gweithio gyda grwpiau bach o blant neu unigolion, mae awyrgylch croesawgar ac arddangosiadau ysgogol ar y waliau.

## Gweithgaredd 5 Rhoi cymorth

1 awr 10 munud

Darllenwch [Deunydd Darllen 2](#), 'Support in a mathematics lesson' gan Jennifer Colloby (2013).

Ar ôl i chi ddarllen y darn, edrychwch ar y rhestr ganlynol o dair safon CALU:

- Dangos y gwerthoedd, yr agweddau a'r ymddygiad cadarnhaol a ddisgwylir gan blant a phobl ifanc (Safon CALU rhif 3)
- Deall amcanion, cynnwys a deilliannau arfaethedig y gweithgareddau dysgu y maent yn cymryd rhan ynddynt (Safon CALU rhif 14)
- Monitro ymatebion dysgwyr i weithgareddau ac addasu'r dull gweithredu yn unol â hynny (Safon CALU rhif 22).

Nodwch yn y blwch isod ym mha ffyrdd y mae Caroline yn cyflawni'r tair safon a ddewiswyd yn eich barn chi.

*Provide your answer...*

### Comment

Mae Tabl 1 yn dangos ein barn ni:

### Tabl 1 Cyflawni safonau CALU

Safon CALU	Ymarfer Caroline
3. Dangos y gwerthoedd, yr agweddau a'r ymddygiad cadarnhaol a ddisgwylir gan blant a phobl ifanc	Mae'r ffordd y mae Caroline yn cyflawni ei rôl gymorth yn awgrymu bod ganddi'r sgiliau i annog plant i barhau i weithio pan fo angen, cadarnhau eu cyflawniadau a sicrhau bod ei grŵp yn cyflawni'r gweithgareddau a gynlluniwyd.
14. Deall amcanion, cynnwys a deilliannau arfaethedig y gweithgareddau dysgu y maent yn cymryd rhan ynddynt	Mae'n cyfleu diben y wers wrth ryngweithio â'r plant a thrwy'r cyfarwyddiadau y mae yn eu rhoi iddynt. Dangosir hyn gan ei gwybodaeth am ddiben y wers a'i hymwybyddiaeth o'r tasgau y mae angen i'r plant eu cwblhau.
22. Monitro ymatebion dysgwyr i weithgareddau ac addasu'r dull gweithredu yn unol â hynny	Mae Caroline bob amser yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r hyn y mae pob aelod o'i grŵp yn ei wneud. Mae'n addasu ei rhyngweithio a'i chymorth ar sail anghenion newidiol y plant.

Mae safonau - boed yn safonau galwedigaethol cenedlaethol i gynorthwyr addysgu, safonau CALU neu'n safonau i ddyfarnu SAC - yn aml yn cynnwys llawer o syniadau ac arferion. Er enghraifft, mae safon CALU 14 uchod yn cynnwys tri syniad ynglŷn â gwersi. Pan gaiff safonau eu cysylltu ag ymarfer, rhaid barnu a yw enghreifftiau penodol o arfer yn cyflawni'r safon yn llawn neu'n rhannol a faint o dystiolaeth o arfer llwyddiannus sydd ei angen er mwyn bodloni'r safon. O'r disgrifiad o ymarfer Caroline yn y darn, mae'n ymddangos y gallai fod yn gymwys yn y tair safon a restrir yn y tabl.



## 3.2 Cynorthwyo, cefnogi ac addysgu

Y farn swyddogol ers tro ar rôl cynorthwyr addysgu yw eu bod yn 'cynorthwyo' athrawon ac yn 'cefnogi' dysgu ac mae llawer o lunwyr polisi yn dal i feddwl am eu gwaith fel hyn. Mae awgrymu bod cynorthwyr addysgu yn 'addysgu' plant wedi bod yn bwnc 'tabŵ' ond mae'n ymddangos bod hyn yn newid. Yng Nghymru a Lloegr, y bwriad yn wreiddiol oedd y byddai CALU yn gwneud gwaith 'cyflenwi' mewn gwersi a gynlluniwyd eisoes gan athrawon ond mae rheswm dros gredu bod sawl CALU yn addysgu mewn gwirionedd, yn enwedig am fod y cysyniad o 'gyflenwi' yn anochel yn golygu rhyngweithio â phlant a allai olygu bod oedolyn yn dod yn rhan o gydberthynas addysgu (Hancock et al., 2010; Sendorek, 2009). Mae disgrifiad y Brifysgol Agored o'i gradd sylfaen i gynorthwyr addysgu yn nodi'n glir ei bod yn radd 'addysgu a dysgu' cynradd yn hytrach na gradd 'i gefnogi dysgu', er enghraifft. Awgryma Dillow (2010, t. 8) fod cynorthwyr addysgu yn gwneud tasgau sy'n edrych fel tasgau addysgu, yn ogystal â thasgau cynorthwyo mwy traddodiadol. Dywed Blatchford et al. (2012) os oes gan gynorthwyr addysgu 'direct pedagogical, instructional relationship with pupils' (t.140), eu bod, i bob pwrpas, yn addysgu.

Er bod 'cynorthwyo', mewn theori, yn dangos gwahaniaeth cysyniadol rhwng athrawon a chynorthwyr, mae'n anodd iawn sefydlu'r gwahaniaeth hwn yn ymarferol. Y rheswm dros hyn yw bod effaith yr hyn y mae oedolion yn ei wneud gyda phlant mewn ysgolion yn dibynnu i raddau helaeth ar ymateb y plant i'r oedolion sy'n gweithio gyda nhw. Nid yw addysgu yn rhywbeth y gallwch ei wneud 'i' blant. Er mwyn llwyddo, rhaid eu cynnwys - rhaid addysgu 'gyda' nhw. Felly, mae plant bob amser yn asiantau yn yr ymdrech addysgu gan eu bod yn dylanwadu ar bu'n a fydd addysgu yn digwydd ai peidio. Felly mae'n gwneud synnwyr y gallai cynorthwydd addysgu, o safbwynt plentyn, addysgu'n fwy effeithiol nag athro. Nododd Eyres et al. (2004) hyn mewn astudiaeth ar y gwahaniaeth rhwng athrawon a chynorthwyr addysgu o safbwynt plant.

## 4 Edrych i'r dyfodol

Person dewr fyddai'n ceisio darogan dyfodol unrhyw faes gwaith. Fodd bynnag, wrth gasglu adnoddau ar gyfer yr uned hon, rydym wedi cael syniad da o sut mae cynorthwyr addysgu yn gweithio ar hyn o bryd mewn ysgolion cynradd ledled y DU. Rydym hefyd mewn cysylltiad â nifer fawr o gynorthwyr sy'n astudio cyrsiau gyda'r Brifysgol Agored ac yn nodi sut maent yn ysgrifennu am eu gwaith dyddiol. Mae hyn yn rhoi syniad i ni o sut mae'r rôl yn datblygu a'r trywydd y gallai ei ddilyn yn y dyfodol.

Yn sicr, ers i'r Brifysgol Agored lansio'r cymhwyster uwch penodol cyntaf i gynorthwyr addysgu yn 1995 (Y Dystysgrif Cynorthwydd Athrawon Arbenigol), mae cynorthwyr wedi dod yn rhan fwyfwy amlwg o'r gwaith y mae athrawon yn ei wneud. Yn hyn o beth, byddem yn cynnwys y tasgau canlynol a neilltuwyd i athrawon yn draddodiadol:

- cynllunio gwaith dysgu plant
- addysgu gwersi
- gwerthuso ac asesu'r hyn a ddysgwyd
- addysgu dosbarthiadau cyfan
- cydweithio â rhieni ynglŷn â'u plant a'u gwaith dysgu
- rheoli ac arfarnu staff.

Wrth gwrs, nid yw pob cynorthwydd addysgu yn gwneud yr holl bethau hyn. Mae rhai yn eu gwneud ar y cyd â mathau eraill o waith ysgol, fel paratoi adnoddau dysgu, goruchwyllo amseroedd chwarae, rhedeg clybiau ar ôl ysgol a chasglu cofnodion ysgol. Mae'r amrywiaeth o dasgau a gyflawnir gan gynorthwyr mor fawr nes y gall rhai cynorthwyr addysgu deimlo nad ydynt, hyd yma, yn gwneud unrhyw rai o'r eitemau a restrir ond eu bod yn dal i gael eu defnyddio mewn ffyrdd pwysig eraill yn eu hysgol. Mae rhai cynorthwyr addysgu, fodd bynnag, yn cyflawni'r chwe dyletswydd a restrir, yn enwedig cynorthwyr addysgu profiadol ac uwch.

Wrth ysgrifennu'r uned hon, daeth yn amlwg i ni bod cynorthwyr addysgu yn chwarae rôl sylweddol iawn mewn gwaith addysgu cymwys. Gellir ystyried hyn fel datblygiad cyson, ond tawel, dros amser. Mae hyn wedi digwydd yn bennaf ers canol y 1990au ond roedd llawer o gynorthwyr addysgu cyn hynny yn cyflawni cyfrifoldebau addysgu (mewn realiti, os nad yn swyddogol), yn enwedig y rhai oedd yn gweithio gyda phlant y barnwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig.

Mewn ysgolion lle caiff staff eu defnyddio mewn ffordd hynod o greadigol, mae'n ymddangos bod rolau newydd yn dod i'r amlwg ar gyfer cynorthwyr addysgu y gellir eu cysylltu â'r canlynol:

- cyfrifoldebau rheoli staff
- cymwysterau arbenigol y gall cynorthwyr addysgu eu cynnig i'w rolau weithiau
- brwdfrydedd cynorthwyr addysgu, ac felly eu gwybodaeth, o ran agwedd benodol ar y cwricwlwm.

Yn y tri maes uchod, mae cynorthwyr addysgu yn ymgymryd â chyfrifoldebau y gall athrawon cymwys eu cyflawni.

## 5 Casgliad

Un o nodau canolog yr uned hon oedd rhoi syniad i chi o sut mae cynorthwywyr addysgu yn rhan o ddatblygiad addysgol cyffrous. Rydym felly wedi gosod cyflogaeth cynorthwywyr addysgu yng nghyd-destun twf eang gweithlu parabroffesiynol newydd ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi nodi mai menywod sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r gweithlu hwn mewn ysgolion, wedi nodi rhesymau pam mae rhieni lleol yn enwedig yn cael eu denu i weithio mewn ysgolion ac wedi tynnu sylw at y cyfraniad gwerthfawr y mae cynorthwywyr addysgu yn ei wneud ar sail eu profiadau bywyd a'u profiadau gwaith blaenorol. Er bod llawer o orgyffwrdd rhwng rolau cynorthwywyr ac athrawon (beth bynnag fo'u teitl a ble bynnag y byddant yn gweithio yn y DU), rydym wedi awgrymu hefyd bod gwahaniaethau pwysig rhyngddynt. Mae cynorthwywyr addysgu yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o gyfrifoldebau. Mae rolau athrawon a chynorthwywyr addysgu yn parhau i orgyffwrdd fwyfwy dros amser ac mae diffiniadau mwy creadigol ar gael o gyfraniad unigryw cynorthwywyr addysgu. Gallwn ddisgwyl y bydd y rolau hyn a datblygiadau yn y gweithlu yn parhau i newid, o gofio'r ffordd y mae llywodraethau olynol yn cyflwyno polisïau newydd a'r ffordd y mae ymarfer yn newid mewn addysg gynradd.

## References

- Blatchford, P., Russell, A. a Webster, R. (2012) *Reassessing the Impact of Teaching Assistants: how research challenges practice and policy*, Llundain, Routledge.
- Colloby, J. (2013) 'Support in a mathematics lesson', yn Hancock, R., Collins, J. a Stacey, M. (gol.), *Primary Teaching Assistants: Learners and learning*, Abingdon, Routledge/ Milton Keynes, Y Brifysgol Agored.
- Cremin, H., Thomas, G. a Vincett, K. (2003) 'Learning zones: an evaluation of three models for improving learning through teacher/teaching assistant teamwork', *Support for Learning*, cyf. 18, rhif 4, tt. 154–161.
- Dillow, C. (2010) *Supporting Stories: being a teaching assistant*, Stoke-on-Trent, Trentham Books.
- Dysgu Cymru. Ar gael yn:  
<http://learning.wales.gov.uk/?jsessionid=BA3789E4553ECB87E1975236E59A0535?skip=1&lang=cy> <http://learning.wales.gov.uk/?skip=1&lang=en>
- Etzioni, A. (1969) *The Semi-Professions and their Organisation*, Llundain, Free Press.
- Eyres, I., Cable, C., Hancock, R. a Turner, J. (2004) "'Whoops, I forgot David": children's perceptions of the adults who work in their classrooms', *Early Years*, cyf. 24, rhif 2, tt. 149–162.
- Gwefan Hwb Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:  
<https://hwb.wales.gov.uk/home/Pages/Home.aspx> [Cyrchwyd 17 Chwef 2014]
- Hall, K. a Nuttall, W. (1999) 'The relative importance of class size to infant teachers in England', *British Educational Research Journal*, cyf. 25, rhif 2, tt. 245–258.
- Hancock, R. (2012) 'The pastoral pedagogy of teaching assistants', yn Cole, T., Daniels, H. a Visser, J. (gol.) *The Routledge International Companion to Emotional and Behavioural Difficulties*, Llundain, Routledge.

- Hancock, R. a Colloby, J. (2013) 'Ten titles and roles', yn Hancock, R., Collins, J. a Stacey, M. (gol.), *Primary Teaching Assistants: Learners and learning*, Abingdon, Routledge/Milton Keynes, Y Brifysgol Agored.
- Hancock, R., Hall, T., Cable, C. ac Eyres, I. (2010) "They call me wonder woman": the job jurisdictions and workplace learning of higher level teaching assistants', *Cambridge Journal of Education*, cyf. 40, rhif 2, tt. 97–112.
- Hancock, R., Swann, W., Marr, A., Turner, J. a Cable, C. (2002) *Classroom Assistants in Primary Schools: Employment and Deployment* [Project dissemination report], Milton Keynes, Y Brifysgol Agored, Cyfadrn Astudiaethau Addysg ac Iaith. Ar gael gan w.r. hancock@open.ac.uk.
- Hancock, R. ac Eyres, I. (2004) 'Implementing a required curriculum reform: teachers at the core, teaching assistants on the periphery?', *Westminster Studies in Education*, cyf. 27, rhif 2, tt. 219–231.
- Houssart, J. (2011) "I can be quite intuitive": teaching assistants on how they support primary mathematics', *Proceedings of the British Society for Research into Learning Mathematics*, cyf. 31, rhif 1, tt. 67–72.
- Kessler, I. (2002) *Changing job boundaries in the public services*, papur nas cyhoeddwyd, Rhydychen, Coleg Templeton.
- Lee, B. (2003) 'Teaching assistants in schools', *Education Journal*, cyf. 68, tt. 25–27
- Local Government National Training Organisation (LGNTO) (2000) *Survey of Education Support Staff and Volunteers in Nursery and Primary Schools*, Llundain, LGNTO.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008a) *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008b) *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Llywodraeth Cymru (2013a) *Cynllun Gweithredu i Hyrwyddo Rôl a Hybu Datblygiad Staff Cymorth mewn Ysgolion yng Nghymru*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/131010-action-plan-promoting-the-role-and-development-of-support-staff-cy.pdf> [Cyrchwyd 17 Chwef 2014]
- Llywodraeth Cymru (2013b) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130415-Inf-guidance-cy.pdf> [Cyrchwyd 17 Chwef 2014]
- Welsh Government (2013c) *Rhaglen Gymorth Genedlaethol - canllaw ar gyfer ysgolion*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <http://learning.wales.gov.uk/resources/nsp-guide/?skip=1&lang=cy> [Cyrchwyd 17 Chwef 2014]
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) (1998) *Associate Staff Support for Teachers*, Llundain, NUT.
- Schlapp, U. a Davidson, J. (2001) *Classroom assistants in Scottish primary schools, Spotlight 85*, Glasgow/Caeredin, Council for Research in Education.
- Sendorek, R.J. (2009) *New Professionals in the Classroom? Higher Level Teaching Assistants in Primary Schools: from Policy to Practice*, traethawd ymchwil EdD nas cyhoeddwyd, Llundain, Prifysgol Llundain, y Sefydliad Addysg.
- Smith, L. (2011) Gohebiaeth bersonol â Lisa Smith, y Grŵp Gwasanaethau Data, yr Adran Addysg, 16 Chwefror.

- Strongman, M. a Mansfield, T. (2004) 'Survey of parents' perceptions of teaching assistants', astudiaeth nas cyhoeddwyd, Roche, Ysgol Gymunedol Roche.
- Swann, W. a Hancock R. (2003) 'Variations in primary school teaching assistant employment: a need for standardisation', papur nas cyhoeddwyd, Milton Keynes, Y Brifysgol Agored. Ar gael gan w.r.hancock@open.ac.uk.
- Wakefield, H. (2003) 'Public servants', *Woman's Hour*, Llundain, darllediad gan BBC Radio 4, 15 Tachwedd.
- Wilson, V., Schlapp, U. a Davidson, J. (2002) *More than 'An Extra Pair of Hands'? Evaluation of the Classroom Assistant Initiative in Scotland*, Glasgow, SCRE Centre, Prifysgol Glasgow.
- Yr Adran Addysg a Chyflogaeth (DfEE) (2000) *The Teaching Assistant's File: Induction Training for Teaching Assistants*, DfEE, Llundain.
- Yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant (ETI) (2002) *Chief Inspector's Report 1999–2002* [ar-lein], Bangor, yr Adran Addysg. Ar gael yn [www.deni.gov.uk](http://www.deni.gov.uk) (Cyrchwyd 9 Chwefror 2005).

## Acknowledgements

---

Heblaw am ddeunyddiau trydydd parti ac oni bai y nodir fel arall (gweler [telerau ac amodau](#)), mae'r cynnwys hwn ar gael o dan Drwydded Creative Commons [Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0](#).

Mae'r deunydd a gydnabyddir isod yn Berchnogol ac fe'i defnyddir o dan drwydded (nid yw'n destun Trwydded Creative Commons).

Nid yw'r holl gynnwys fideo a ffotograffau gan gynnwys unrhyw ddarluniau yn yr uned hon yn ddarostyngedig i broses drwyddedu Creative Commons a dim ond yn y cyd-destun a nodir yma yn OpenLearn, y caniateir eu defnyddio. Ni chaniateir defnyddio unrhyw fideos na ffotograffau ar wahân i'r uned OpenLearn hon. Dim ond at eich defnydd personol chi a defnydd nad ydyw'n fasnachol y mae'r cynnwys hwn ar gael.

Cydnabyddir, gyda diolch, y ffynonellau canlynol am roi caniatâd i atgynhyrchu deunydd yn yr uned hon:

Ffigur 1: Darlun gan Emily Dixon, ei chomisiwn cyntaf. Gyda diolch i Sarah a Paul Dixon am eu caniatâd.

Ffigur 5: Darlun gan Soraya Dali-Chaouch. Gyda diolch i Mr a Mrs Dali-Chaouch am eu caniatâd.

Ffigur 7: Ffotograff o Carol Higham. Gyda diolch i Caroline Higham.

### Dysgu mwy

**1. Astudiaethau Cymraeg** eraill ar y pwnc hwn

<https://www.open.edu/openlearn/society-politics-law/openlearn-cymru/openlearn-cymru-ewch-ach-dysgu-ymhellach>

**2. Cynnwys astudio cysylltiedig gan y Brifysgol Agored**

<http://www.open.ac.uk/choose/ou/open-content>

**3. Y pwnc hwn a deunyddiau'r cwrs, sydd am ddim, ar OpenLearn**

<http://www.open.edu/openlearn/>

**4. Astudio o'r tu allan i'r DU?** Mae gennym fyfyrwyr mewn dros gant o wledydd sy'n astudio cymwysterau ar-lein. <http://www.openuniversity.edu/>